**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Judith Paget CBE
Prif Weithredwr GIG Cymru
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

16 Mai 2024

Annwyl Judith

Wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynllun ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros ym mis Ebrill 2022, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fonitro cynnydd o ran cyflawni'r uchelegeisiau a nodwyd yn y cynllun, a chyhoeddi adroddiadau monitro tymhorol fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Ar 17 Ebrill, ystyriodd a chyhoeddodd y Pwyllgor ei bumed adroddiad monitro; mae'r adroddiadau blaenorol hefyd i'w gweld ar ein gwefan. Daw'r ystadegau yn yr adroddiad o ddogfen Llywodraeth Cymru, sef Crynodeb o weithgarwch a pherfformiad y GIG ar gyfer Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024, ac Ystadegau Cymru. Maent yn amlygu amrywiadau sylweddol o ran amseroedd aros ar draws gwahanol ranbarthau, sy'n awgrymu gwahaniaethau o ran capasiti ac effeithlonrwydd gwasanaethau gofal iechyd. Maent hefyd yn tanlinellu'r angen i dargedu mesurau ymyrryd ac adnoddau i ymdrin â'r anghysondeb yn yr amseroedd aros, ynghyd â'r angen i fyrddau iechyd gydweithio'n rhanbarthol, drwy rannu arferion gorau, adnoddau ac arbenigedd, fel y gall byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd i sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd i bob claf, waeth beth fo'i leoliad daearyddol.

Ar sail yr uchod, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael gwybodaeth gan Weithrediaeth GIG Cymru mewn nifer o feysydd, a'r canlynol yn benodol:

- sut mae'r Weithrediaeth yn hwyluso trefniadau i gydweithio'n rhanbarthol,
- sut y mae'n helpu byrddau iechyd i fynd i'r afael â chyfnodau aros hir mewn meysydd arbenigol a rhanbarthau penodol,

- gwybodaeth ariannol benodol am y modd y mae'n monitro cyllid ac adnoddau ychwanegol a ddyrennir i wasanaethau gofal iechyd i ehangu capasiti; ac
- ystadegau ar nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol a gyflogir, a manylion cyfarpar a chyfleusterau newydd.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.